www.furthermaths.org.uk/wales		
Astudiaeth Achos	Ysgol Bro Gwaun	
Cyfeiriad	Ysgol Bro Gwaun, Heol Dyfed Fishguard, Pembrokeshire, SA65 9DT	
Nifer myfyrwyr 16 – 18 oed 2013/14		

Astudiaeth Achos:

Myfyriwr – William Thomas

Cyflwyno Mathemateg Pellach:

Awgrymwyd y posibilrwydd o gynnal cwrs Lefel A llawn mewn Mathemateg Bellach drwy Raglen Gymorth Mathemateg Bellach i mi yn gyntaf gan fy athro Mathemateg, sydd hefyd yn un o diwtoriaid y rhaglen. Mae fy ysgol yn cynnig Mathemateg Bellach Safon UG ym mlwyddyn 13 yn unig, felly hwn oedd yr unig ffordd y gallwn i wneud Lefel A llawn. Pan benderfynais astudio Mathemateg Bellach yr oedd allan o fwynhad pur o'r pwnc ac nid oeddwn wedi penderfynu eto ynglŷn â beth i'w wneud ar ôl lefel A, ond erbyn diwedd blwyddyn 12 roeddwn yn gwybod fy mod eisiau mynd ag ef ymhellach.

Roedd holl fodiwlau Mathemateg Bellach UG yn cael eu dysgu yn ystod gwersi arferol, ond roedd rhaid i mi wneud y tri modiwl ychwanegol mewn gwahanol ffyrdd. Roedd fy athro Mathemateg yn gallu darparu sesiynau un i un i ddysgu un o'r modiwlau tra bod y ddau arall yn cael fy nysgu i mi ar-lein gyda'r nos. Roedd cymryd yr amser i astudio tri modiwl ychwanegol yn fy amser fy hun ochr yn ochr â'm pynciau eraill angen llawer o ymroddiad, ond oherwydd fy niddordeb a mwynhad o'r pwnc, nid oedd wir yn teimlo fel mwy o waith. Roedd y tiwtoriaid yn hollol wych wrth gyflwyno gwersi a chynorthwyo gydag adolygu ac yn y blaen ac roeddent yn barod i dreulio cymaint o amser ag oedd yn angenrheidiol i helpu i ddeall cysyniad penodol.

Roedden nhw bob amser yn barod i ateb unrhyw gwestiynau a hyd yn oed yn mynd y tu hwnt i'r maes llafur i drafod cwestiynau STEP a DUE gyda mi, sef arholiadau mae rhai o'r prifysgolion gorau yn gofyn i chi eu cymryd yn ychwanegol at Lefel A.

Manteision astudio Mathemateg Bellach?

Un o'r sgiliau allweddol mae'r Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach yn rhoi i chi ydy'r gallu i ddysgu'n annibynnol. Tra bod digon o help ar gael os oes angen, mae angen mwy o hunan-ddisgyblaeth i roi'r ymdrech y tu allan i'r sesiynau ar-lein sy'n rhywbeth sy'n cael ei gydnabod yn dda gan brifysgolion. Mae astudio Mathemateg Bellach hefyd yn helpu i atgyfnerthu cysyniadau a gyflwynwyd mewn Mathemateg arferol, ac mae'n ei gwneud yn haws pan fyddwch wedi cynnwys cysyniadau mewn Mathemateg Bellach cyn i chi eu gwneud mewn Mathemateg arferol. Diolch i'r tiwtoriaid a'r Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach cefais A* mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach a chael lle yn fy Mhrifysgol dewis cyntaf, Prifysgol Caerfaddon.

Os ydych yn ystyried gwneud Mathemateg Bellach, peidiwch â gadael y gwaith ychwanegol eich rhwystro. Os ydych yn wir yn mwynhau Mathemateg ni fydd yn teimlo fel gwaith ac mae llawer o gefnogaeth ar gael i chi ar-lein, gan y tiwtoriaid a chan eich athrawon eich hun. Mae astudio drwy Raglen Gymorth Mathemateg Bellach yn dangos i brifysgolion eich bod yn unigolyn cyflawn sy'n gallu meddwl yn rhesymegol ac astudio yn annibynnol. Os ydych yn ystyried astudio Mathemateg neu unrhyw beth sy'n gysylltiedig â Mathemateg yn y brifysgol, neu hyd yn oed os nad ydych wedi penderfynu, ond yn mwynhau Mathemateg fel pwnc, byddwn yn llwyr argymell astudio Mathemateg Bellach. Yr oedd yn un o rannau mwyaf pleserus o fy astudiaethau lefel A ac mae wir yn gwneud gwahaniaeth i sut yr ydych yn astudio yn ei gyfanrwydd. Hebddo, efallai na fyddwn wedi cael y graddau a wneuthum ac efallai na fyddwn yn astudio ble rydw i nawr.